**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 6ed Chwefror 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Val Feld | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** John Griffiths.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-02-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Ionawr 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod cwestiwn wedi'i holi, wrth ystyried **Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) (LC 153)** yn y cyfarfod blaenorol, a oedd angen ail-wneud y rheoliadau hyn yn flynyddol. Hysbysodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yr aelodau er nad oedd unrhyw ddarpariaeth, naill ai mewn deddfwriaeth hwyluso neu yn y Rheoliadau eu hunain, a oedd yn cyfyngu ar hyd y Rheoliadau i flwyddyn, mai'r arfer yn y tair

blynedd diwethaf oedd ail-wneud y Rheoliadau yn flynyddol yn sgîl newidiadau yn y system grantiau.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC 156: Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC156(Adroddiad).

**LC157 Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i gael cip ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau gan sylwi ar nifer o bwyntiau a ymgorfforwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC157(Adroddiad).

**LC158: Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac ni wnaed unrhyw sylwadau.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC158(Adroddiad).

**LC159: Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.10 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i gael cip ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau gan sylwi ar nifer o bwyntiau a ymgorfforwyd yn y drafft terfynol.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC159(Adroddiad).

**LC160: Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.14 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gan mai camgymeriadau drafftio a oedd yn addas i'w cywiro oedd y rhain, cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau penodol hyn yn y modd hwn, drwy osod Memorandwm Cywiriadau gerbron y Cynulliad. Gwnaed nifer o sylwadau cyffredinol hefyd mewn perthynas â gwallau teipograffyddol a gwallau gramadegol a mân welliannau drafftio yr oedd y Pwyllgor o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC160(Adroddiad).

**LC161: Rheoliadau Taliadau Swn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC161(Adroddiad).

**Eitem 4: Papur Drafft i'w Gyflwyno i Adolygiad y Cynulliad**
4.1 Yn y cyfarfod blaenorol cyflwynwyd papur drafft i'r Pwyllgor a geisiodd amlinellu eu pryderon gan awgrymu dulliau amrywiol o wella rôl y Pwyllgor a'r ffordd y caiff deddfwriaeth y Cynulliad ei archwilio yn gyffredinol. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gwneud nifer o fân welliannau i'r papur hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor bod y papur diwygiedig yn adlewyrchu ei safbwyntiau'n gywir ac y dylid ei gyflwyno'n ffurfiol i Grwp Adolygu'r Cynulliad ar gyfer ei gyfarfod ar 14 Chwefror. Atodir copi o'r papur terfynol.

4.2 Ar ôl trafodaeth cytunwyd pan fyddai gwybodaeth ar gael byddai paragraff byr yn cael ei osod o fewn adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol yn manylu ar ffynhonnell pob rheoliad.
**Gweithredu: Clerc/Ymgynghorwyr Cyfreithiol**.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13eg Chwefror 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC156 (Adroddiad)
- LC157 (Adroddiad)
- LC158 (Adroddiad)
- LC159 (Adroddiad)
- LC160 (Adroddiad)
- LC161 (Adroddiad)
- Cyflwyniad i Adolygiad y Cynulliad